

Dyma gasgliad o ddjarhebbion

Amlwg llaid ar farch gwyn

Athro da yw amser

Cyntaf ei og, cyntaf ei gryman

Cân di bennill fwyn i'th nain, fe gân dy nain i tithau

Deuparth gwaith yw ei ddechrau

Doeth dyn tra tawo

Dyfal Donc a dyr y garreg

Diwedd y gân yw'r geiniog

Melys cwsg potes maip

Eli i bob dolur yw amynedd

Gorau arf, arf dysg

Gorau cam, cam cyntaf

Gormod o ddim, nid yw dda

Gwell clwt na thwll

Gwell aderyn mewn llaw na dau mewn llwyn

Gwell cysgu ar wellt nag ar lawr

Gwell chwarae nag ymladd

Gwell dau ben nag un

Un celwydd yn dad i gant

Gwyn y gwêl y frân ei chyw

Hawdd cynnau tân ar hen aelwyd

Heb ei fai, heb ei eni

Hir yw pob ymaros

Ionawr cynnes, Mai oer

I'r pant y rhed y dŵr

Lle crafa'r iâr y piga'r cyw

Llon llygod lle ni bo cath

Mae meistr ar Meistr Mostyn

Mwya'r brys, mwya'r rhwystr  
Ni cheir afal pêr ar bren sur  
Ni cheir y melys heb y chwerw  
Ni ddaw henaint ei hunan  
Nid ar redeg mae aredig  
Nid chwarae, chwarae â than  
Nid wrth ei big y mae prynu cyfflog  
Nid rhy hen neb i ddysgu  
Nid aur yw popeth melyn  
Nid byd, byd heb wybodaeth  
Oni heuir, ni fedir  
Os daw Mawrth i mewn fel oen â allan fel llew  
Pawb a'i fys lle bo'i ddolur  
Pawb drosto'i hun, Duw dros bawb  
Rhaid cropian cyn cerdded  
Rhaid cael deryn glân i ganu  
Rhydd i bawb ei farn ac i bob barn ei llafar  
Taw piau hi  
Tri chynnig i Gymro  
Cyw a fegir yn uffern, yn uffern y myn fod  
Y ddraig goch ddyry cychwyn  
Un wennol ni wna wanwyn  
Yr oen yn dysgu i'r ddafad bori  
Yr euog a ffy heb neb yn ei erlid  
A fo ben bid bont